Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

# Rhaglen Datblygu Cynorthwywyr Addysgu Wrth eu Gwaith

Cynorthwyydd Addysgu Newydd → Cynorthwyydd Addysgu Wrth ei Waith → Darpar CALU → CALU → Cynorthwyydd Addysgu Arbenigol

Mae'r **Rhaglen Cynorthwywyr Addysgu wrth eu Gwaith** ar gyfer cynorthwywyr addysgu sydd wedi bod yn eu swyddi am **o leiaf tair i bum mlynedd** ac a fyddai'n croesawu diweddariad ar gyd-destun newidiol y proffesiwn. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon yn rhanbarthol gan gonsortia rhanbarthol.

Bydd y rhaglen yn darparu gwybodaeth am y safonau proffesiynol, strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi ymarfer ac ystod o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol.

Bydd y rhaglen yn cwmpasu:

- Rôl cynorthwyydd addysgu a sut i wneud y mwyaf o effaith broffesiynol
- Polisïau a fframweithiau sy'n cefnogi ymarfer
- Cyd-destunau sy'n newid
- Datblygu gwrando, holi ac adborth da i ddysgwyr
- Cefnogi a herio pob dysgwr yn briodol ac addasu i bob angen
- Safonau Proffesiynol Newydd ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu
- Y Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu
- Cwricwlwm Newydd i Gymru

Rhaglen ddeuddydd yw hon a gyflwynir ar ddau ddiwrnod gwahanol.

**I gofrestru ar gyfer y rhaglen, gwelwch ein gwefan yma.**

Bydd angen i chi ddefnyddio'ch cyfrif **Hwb** i fewngofnodi i gwblhau'r hyfforddiant. Bydd gan eich ysgol y manylion hynny i chi.





